



Eich cyf/Your ref P-06-1217
Ein cyf/Our ref EM/13108/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

26 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref ynglŷn â Deiseb P-06-1217 Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir.

Rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun sut mae cleifion sydd â COVID Hir yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt allu dychwelyd at fyw bywyd sydd mor llawn â phosibl, ond rwyf hefyd yn ymwybodol o'r rhwystredigaeth sy'n cael ei themlo gan y rheini y mae eu gwellhad mor araf.

Mae pobl yn wynebu amrywiaeth fawr o heriau a symptomau fel rhan o'r syndrom hwn, a rhai o'r symptomau hynny'n eu gwanychu'n ddifrifol. Rwy'n benderfynol y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i barhau i ddysgu o'n profiadau wrth ddatblygu gwasanaethau i gefnogi'r unigolion hyn.

Ar 15 Mehefin, cyhoeddais becyn gwerth £5m i gefnogi'r rhaglen Adferiad, sy'n cynorthwyo'r rheini sy'n dioddef effeithiau parhaus o ganlyniad i COVID-19. Mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau'n gallu newid ac addasu, yn seiliedig ar ddysgu o brofiad yn ogystal ag ar ymchwil a chasgliadau gwerthusiadau. Dyna pam rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r rhaglen bob chwe mis.

Drwy gydweithio â'r GIG, fe wnaethom ddatblygu *Llwybr Cymunedol Cymru Gyfan*, sy'n gydnaws â chanllawiau NICE a *Chymru Iachach*, er mwyn darparu fframwaith ar gyfer datblygu gwasanaethau ym mhob un o'n byrddau iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi gweithio gyda'i bractisau meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol i sefydlu llwybrau lleol clir er mwyn sicrhau bod pobl sydd â COVID Hir yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn, p'un a ydynt yn asesiadau proffesiynol, ymchwiliadau, triniaethau, neu gymorth adsefydlu, mor agos i gartrefi pobl â phosibl drwy wasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymunedol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r rheini y mae angen iddynt gael mynediad at wasanaethau mwy arbenigol nad ydynt ond ar gael mewn ysbyty yn cael eu hatgyfeirio i'r arbenigedd mwyaf priodol ar gyfer gwella eu iechyd, a hefyd gall meddygon teulu gael cyngor arbenigol gan ysbytai i gefnogi pobl yn y gymuned. Mae *Llwybr Cymunedol Cymru Gyfan* ar gyfer COVID Hir ac adnoddau ar-lein ar gael i feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd yng Nghymru drwy linell ganllaw ddigidol a lansiwyd ar 18 Mehefin. Hefyd mae adnoddau cyngor a hunanreoli helaeth ar gael ar-lein ar wefan pob bwrdd iechyd. Mae'n bosibl i lawer o bobl wella o COVID-19 drwy ddefnyddio dulliau hunan-reoli. Lle bo'n briodol, gallai cymorth gael ei ddarparu drwy ap adfer GIG Cymru, a gafodd ei lansio ar 20 Ionawr.

Mae ein dull gweithredu yn ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o atgyfeiriadau a throsglwyddiadau yn digwydd i bobl, gan sicrhau bod pobl yn cael eu rheoli mewn modd holistaidd ac mai dim ond lleiafrif o achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau meddygol arbenigol, a bod hynny'n digwydd dim ond pan fo'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n asesu'r unigolyn yn nodi bod angen arbenigedd arno.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r dull gweithredu sydd ar waith yng Nghymru.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services